Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

CROESAWU CYFEILLION Y MOSG I'R CAPEL - *parhad*

Ein braint yn y Priordy, Caerfyrddin wedi'r oedfa un bore Sul oedd croesawu rhai o aelodau'r Mosg, sydd i fyny'r stryd yn Heol y Prior, atom am baned a sgwrs.

Bu aelodau'r Mosg yn garedig iawn yn rhoi caniatâd i ni ymarfer ar gyfer ein Gwasanaeth Nadolig yn eu hadeiladau oherwydd cyfyngder lle yn y Priordy. Yn ogystal, mae PIP (Pobl Ifainc y Priordy) wedi ymweld â'r Mosg eisoes chael eu croesawu'n fawr ac elwa o'r profiad. Braf oedd gweld teuluoedd wedi dod atom. Cawsom amser difyr yn eu cwmni a chyflwynodd ein Gweinidog, y Parchg Beti-Wyn wybodaeth iddynt am ein capel, y ffydd Gristnogol a'n dulliau o addoli.

Wrth ymateb i'r croeso a gafwyd amlinellodd y Dr Baba Gana (arbennigwr meddygol yn Ysbyty Glanwgili ers blynyddoedd lawer ac aelod o Gyngor Tref Caerfyrddin) y pethau hynny sy'n gyffredin rhyngom fel Mwslemiaid a Christnogion. Cyfeiriodd at y Beibl a'r Corân wrth wneud hynny.

Dywedodd fod mwy yn gyffredin rhyngom nag o nodweddion i'n gwahanu.
Trueni na fyddai'r wasg yn gweld hynny'n amlach! Mynegodd hefyd ddymuniad ei gyd-aelodau ac yntau i weld rhagor o bontio a chyd-ddeall rhyngom yn ein tref a'n bro.

Diolch i'n Gweinidog am drefnu'r ymweliad. Bu'n gyfarfod gwerthfawr iawn ac yn gyfle i ni ehangu cylch ein ffrindiau, dod i wybod mwy am arferion a chredoau'n gilydd, a pharatoi'r ffordd, gobeithio, ar gyfer creu cymdeithas fwy goddefgar a chytûn.

R Alun Charles

Y Groes a'r Atgyfodiad Dathlu'r Pasg ym Mhen-y-bont

Aeth tri chan mlynedd heibio ers marw William Williams Pantycelyn ac ar Sul y Blodau, Ebrill 9fed, cafwyd oedfa arbennig yn y Tabernacl i gofio amdano a'r cyfraniad arbennig a wnaeth i emynyddiaeth Cymru. Lluniwyd yr oedfa gan ein gweinidog y Parchg Dyfrig Rees a bu nifer o'r aelodau a'r plant yn cymryd rhan yn rhoi hanes bywyd 'y pêr ganiedydd' i'r gynulleidfa tra gwnaed defnydd hynod effeithiol o'r taflunydd a'r sgrin. Gwelsom luniau o eglwys Talgarth lle clywodd Williams y bregeth gan Hywel Harris a newidiodd ei fywyd, fferm Pantycelyn a'r perchennog presennol sy'n ddisgynnydd i'r emynydd mawr ynghyd â nifer o luniau eraill fu'n gymorth i gyflwyno ei hanes i ni'r gynulleidfa. Daeth côr bach o blith yr aelodau i gyflwyno datganiad hyfryd o un o'i emynau ond prif nod yr oedfa oedd ein bod yn canu emynau William Williams mewn math o gymanfa deyrnged iddo. Gydag Alun John wrth yr organ ac Iwan Guy yn arwain, canwyd dau ar bymtheg o'r emynau gydag arddeliad a mwynhad arbennig. Mae'n diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant yr oedfa arbennig hon.

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr

Sul y Blodau

Gan mai Sul y Blodau oedd Ebrill 9fed a dechrau'r Wythnos Fawr roedd Owen Griffiths, y nôl ei hen arfer erbyn hyn, wedi codi'r groes enfawr haearn i'n hatgoffa o bwysigrwydd y diwrnod. Daliodd y groes yn ei lle drwy gyfnod y Pasg gyda lliain gwyn a chylch o ddrain arni ar fore'r Groglith.

Y Groglith

Gwasanaeth Cymun a gaed ar Ddydd Gwener y Groglith a'r tro hwn roedd cadeiriau'r capel wedi eu gosod mewn hanner cylch gyda'r Bwrdd Cymun ar y llawr yn eu canol yn hytrach nag ar y llwyfan arferol. Yn wahanol i'r arfer hefyd, yn lle'r briwsion bara arferol ar blatiau bychain sy'n arfer cael eu dosbarthu, torrodd ein gweinidog dorth yn bedwar darn a phasiwyd y darnau hyn o law i law gan yr aelodau yn ystod y Gwasanaeth Cymun. Ychwanegwyd at y naws ddefosiynol pan gododd côr bach o blith yr aelodau i ganu emyn mawr John Elias 'Ai am fy meiau i dioddefodd Iesu mawr' ar y dôn Penparc o eiddo J. T. Rees .
Gwasanaeth hynod o effeithiol.
Yn dilyn yr oedfa hon cynhaliwyd oedfa a drefnwyd gan aelodau Cytûn yn ymyl y gofeb rhyfel. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Mrs Christine Judd a chymrwyd rhan gan nifer o gynrychiolwyr eglwysi'r dref. Yn ôl yr arfer erbyn hyn dosbarthwyd bynsennau'r grog a thaflenni gwybodaeth i'r cyhoedd.

Sul y Pasg

Ar Sul y Pasg yn y Tabernacl cynhaliwyd gwasanaeth Cymun bore a hwyr a chanwyd emynau'r Pasg ag arddeliad. Braf oedd cael croesawu nifer o blant a chyn aelodau'r eglwys adre dros gyfnod y gwyliau

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

150 1867-2017
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
Y TYST
Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 150 | Rhif 21 | Mai 25, 2017 | 50c.

Hugh Iorwerth Jones

Testun tristwch oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Hugh Iorwerth Jones (Llanelwy) ar 7fed Mai yn 96 oed. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu profedigaeth yn enwedig ei blant Eifion, Mary, Myrddin a Maureen.

CARMEL LLANLLECHID - Dwylo Prysur yn Llŷn

Ychydig cyn y Pasg fe aeth aelodau ifanc 'Clwb Dwylo Prysur' a rhai cyfeillion hŷn ar wibdaith i Wlad Llŷn. Yng Nghlynnog Fawr yr arhosodd y bws gyntaf, er mwyn i'r criw weld adeilad hynafol Eglwys Beuno Sant. Cawsom fynd i mewn i'r Eglwys a gweld y lluniau sydd i'w gweld ynddi o bererinion ar eu ffordd i Ynys Enlli. Ym mynwent yr Eglwys gwelsom fedd Eben Fardd a chael cyfle i ganu un o'i emynau ar lan ar y bedd, 'O fy Iesu bendigedig'.

Capel Penlan

Ymlaen â'r bws wedyn i Bwllheli a Chapel Penlan, lle'r oedd y Parchg Glenys Jones yn aros amdanom. Cawsom groeso mawr ganddi, ac aeth hi â ni o amgylch y capel gan adrodd peth o hanes dechreuadau'r Achos yno. Gwelsom y gofeb i'r Parchg Benjamin Jones, a chanodd y bobl ifanc un o emynau Ann Griffiths, a ddaeth dan ddylanwad Benjamin Jones wrth wrando arno'n pregethu yn Llanfyllin. Elen oedd yr unawdydd ac Owain oedd yn cyfeilio ar yr organ wrth i'r criw ganu, 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'.

Y criw y tu allan i Gapel Penlan, Pwllheli

Eglwys Hywyn

Wedi oedi peth ym Mhwllheli i gael cinio aethom ymlaen i Aberdaron, i Eglwys Hywyn Sant, yr Eglwys sydd ar y llethr ger y traeth. Roedd llawer o bobl a phlant yn yr Eglwys gan fod yno fwrlwm o weithgareddau dros gyfnod y Pasg. Braf oedd gweld plant yn chwarae â theganau ac yn gwneud lluniau a theuluoedd ifanc yn sgwrsio a chael paned. Canodd ein pobl ifanc un o'u hoff emynau yn yr Eglwys, 'Dyma Feibl annwyl Iesu'.

Pen draw'r daith cyn i ni droi am adref oedd Uwchmynydd, yng ngolwg Ynys Enlli. Cawsom amser difyr iawn gyda'n gilydd, bererinion y bws.

Helen Williams

Tu allan i gartref Eben Fardd yng Nghlynnog

Estyn Llaw i Ffoaduriaid

Eleni fe fentrodd Ysgol Sul Salem, Porthmadog ddathlu cychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol mewn ffordd ychydig bach yn wahanol. Defnyddiwyd yr adnodd "Darganfod lle Diogel" sy'n adrodd stori dau frawd Faraidoon a Farzad deithiodd o Afghanistan i chwilio am loches yn Ewrop yng ngwlad Groeg. Roedd yn rhaid i'r ddau ffoi yn sydyn heb eu rhieni taith dipyn yn wahanol i'r rhai rydym ni yn eu cael pan efallai yn mynd ar wyliau i wlad Groeg!

I ddiweddu'r ysgol Sul cafwyd picnic llawn o fwydydd o wlad Groeg caws Feta iogwrt gyda ffrwythau a mêl teisennau bach traddodiadol o Roeg wedi eu gwneud â crwst Ffilo cnau mân, mêl ac olewydd oedd ddim at ddant pawb! Dyma lun o'r plant yn mwynhau eu gwledd ond yn cofio am ddau lawer iawn llai ffodus na nhw wrth wneud hynny.

Elen Vaughan

cymorth cristnogol

Ysgol Sul Salem, Porthmadog

Penderfyniadau

Dyma'r penderfyniadau fydd yn dod ger bron y gynhadledd yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2017.

1. Ffair Arfau Caerdydd

Nodwn gyda thristwch bod ffair arfau rhyfel wedi ei chynnal yng Nghaerdydd ar 28 Mawrth eleni. Rydym yn gresynu bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi cefnogi'r fenter hon gan droi prifddinas ein gwlad yn farchnad i brynu a gwerthu nwyddau sydd yn dinistrio bywydau tlodion ein byd.

Sylwn fod cwmni'r DPRTE (Defence Procurement, Research, Technology and Exportability) yn ei llenyddiaeth yn datgan y bydd cwmnïau mawrion sy'n nodedig am gynhyrchu arfau rhyfel a'u gwerthu dramor, fel BAE Systems, Lockheed Martin a Boeing, yn *"showcasing products and services along all parts of the supply chain";* a bod BiP Solutions, trefnyddion y digwyddiad, wedi datgan *"DPRTE 2017 will provide a unique opportunity to gain access to defence procurement buyers"*.

Credwn fod y fath fasnach yn anfoesol a'i bod yn drist odiaeth bod gwerthwyr a phrynwyr yr arfau dieflig hyn yn cael croeso ym mhrifddinas ein gwlad; arfau sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ladd pobl ddiniwed a dinistrio cymunedau mewn mannau fel Yemen a Gasa.

Fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, galwn ar Gyngor Dinas Caerdydd i wrthod cefnogaeth i DPRTE i gynnal ffair arfau yn y ddinas yn 2018 nac yn y dyfodol. Os bydd y ffair arfau yn cael ei chynnal ar 27 Mawrth 2018, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwrthdystio yn erbyn y digwyddiad.

Cynigydd: Y Parchg Aled D. Jones

Eilydd: Y Parchg Guto Prys ap Gwynfor

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Ceredigion

2. Ffoaduriaid

Credwn fod nifer a chyflwr truenus y bobl sy'n ffoi rhag rhyfel a therfysg mewn sawl rhan o'r byd yn hollol frawychus. Cydymdeimlwn yn arbennig gyda'r plant a'r ieuenctid sy'n croesi ffiniau i geisio lloches, yn aml heb gwmni eu teuluoedd.

Nodwn yn arbennig gyfraniad Cymorth Cristnogol ar hyd dros 70 mlynedd yn gweithio i gynnig llais, lloches ac ymgeledd i ffoaduriaid mewn sawl gwlad.

Nodwn fod ffoaduriaid yn aml yn cael eu dilorni a'u gwrthod am nifer o resymau, gan gynnwys ofn y byddent rywsut yn dinistrio hunaniaeth y wlad sy'n eu derbyn ac yn peryglu lles cymdeithas.

Credwn fod disgwyl i ni Gristnogion i groesawu'r gwrthodedig a'r anghenus, ac i ddarparu lloches i'r rhai sydd mewn angen. Mae'r croeso hwn yn ymestyn, wrth gwrs, i'r rhai sy'n ddilynwyr crefyddau eraill, yn ogystal â phobl nad ydynt yn ystyried eu hunain i fod yn grefyddol.

Credwn er cymaint yw'r demtasiwn i godi muriau ac eithrio pawb rydym yn ystyried sy'n wahanol i ni, bod ein gwlad yn lle gwell pan fyddwn yn agor ein drysau i'r sawl sydd angen ein help. Rydym yn gwrthod rhyfel fel modd i setlo anghydfod rhwng pobloedd, ond rhaid inni beidio â chuddio ein hwynebau pan welwn ein chwiorydd a'n brodyr yn dioddef oherwydd hynny.

Penderfynwn fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ddatgan trwy bleidlais heddiw mai ein polisi, mewn gair a gweithred, yw dangos trugaredd a chariad at ffoaduriaid pob cyfle a gawn.

Cynigydd: Y Parchg Guto Llywelyn

Eilydd: Y Parchg Beti-Wyn James

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

3. Swyddfa i'r Undeb yng Ngogledd Cymru

Cefndir y Cynigiad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi cymryd sawl cam cadarnhaol ymlaen wrth wynebu'r sefyllfa heriol bresennol, a hynny drwy benodi staff ychwanegol i gydweithio â'i gilydd a chyda'r Eglwysi. Bellach, yn rhan o'r tîm, mae gweithiwr i'w gael yn y De a'r Gogledd, a gwerthfawrogwn eu gwaith yn fawr.

Ers 2006, mae Cyfundebau'r Gogledd wedi elwa'n fawr o'r ffaith fod cartref yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn y Gogledd gan ei fod wedi gallu rhannu ei amser rhwng y Gogledd a'r De, a gweithio o'i swyddfa adref. Fodd bynnag, pan ddaw tymor yr Ysgrifennydd Cyffredinol i ben ymhen rhai blynyddoedd, a bellach gyda gweithiwr wedi'i lleoli yn y Gogledd, a nifer o'r gweithwyr eraill sydd gan yr Undeb angen treulio rhai cyfnodau yn y Gogledd, awgrymwn y byddai buddsoddi mewn swyddfa i weithredu fel cangen o Dŷ John Penri yn y Gogledd o fudd mawr i'r Undeb. Byddai swyddfa, neu o bosib siop Stryd Fawr mewn man addas yn cynnig ffenestr i'r Undeb yn y Gogledd, yn cynnig gofod niwtral ac addas i gynnal cyfarfodydd ac i gynnull pobl y Gogledd pe byddai angen. Byddai'n ofod i swyddogion a staff yr Undeb weithio ohono pan fyddent yn y Gogledd, ac i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gael swyddfa yn y Gogledd. O leoli swyddfa o'r fath mewn hen siop Stryd Fawr, gallai hefyd gynnig fflat uwchben ar gyfer defnydd staff y De wrth iddynt dreulio amser yn gweithio yn y Gogledd. Yn naturiol, byddai angen ystyried rhywun i redeg y swyddfa, boed yn llawn amser neu'n rhan-amser. Byddai hyn yn ysgafnhau peth ar faich gwaith gweithwyr gweinyddol Tŷ John Penri yng nghyswllt Eglwysi'r Gogledd.

Gwyddom fod awgrymiadau wedi bod yn y gorffennol am symud Tŷ John Penri i leoliad canolog, ond credwn y byddai'r opsiwn hwn yn fwy manteisiol. Byddai pencadlys yr Undeb yn parhau i fod yn Nhŷ John Penri yn Abertawe, ac yn gartref yr Undeb yn y De, a byddai cangen y Gogledd yn fan cyswllt i Gyfundebau ac Eglwysi'r Gogledd.

Y Cynigiad:

Cynigiwn y dylai Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ystyried y priodoldeb o sefydlu swyddfa yn y Gogledd fel cangen o Dŷ John Penri.

Cynigydd: Y Parchg Carwyn Siddall

Eilydd: Mr Ifan Alun Puw

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Meirion

YSGOL HAF Y GWEINIDOGION
Mehefin 26-28, 2017

Canolfan Halliwell
Coleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Caerfyrddin
Prif thema: Dathliadau 2017
Cadeirydd: Jill Hailey-Harries

Dydd Llun 26

4.00	Cyrraedd, cofrestri, coffi
5.00	Darlith a thrafodaeth: **Densil Morgan – Martin Luther.**
6.30	Swper
7.30	Darlith Goffa W.T.Pennar Davies ac R.Tudur Jones: **Eryn White – Wiliams Pantycelyn**
9.00	Epilog

Dydd Mawrth 27:

8.00	Brecwast
9.00	Defosiwn
9.15	Astudiaeth Feiblaidd: **R. Alun Evans**
10.30	Coffi
11.00	Darlith a thrafodaeth: **Alun Tudur – Y Diwygiad Radical**
12.30	Cinio
1.30	Prynhawn rhydd: trip dan ofal **Jill a Guto**
5.00	Coffi
5.30	Cyfarfod Busnes
6.30	Swper
7.30	Atgofion: **Howell Mudd**
9.00	Epilog

Dydd Mercher 28:

8.00	Brecwast
9.00	Defosiwn
9.15	Astudiaeth Feiblaidd: **R. Alun Evans**
10.30	Coffi
11.00	Darlith a thrafodaeth ar lyfrau: **Alun Lenny – Llyfrau Dadlennol**
12.30	Cinio

Golygyddol

Etholiad Cyffredinol

Mae fy mhen yn troi ar hyn o bryd fel chwrligwgan gyda'r holl wleidydda a'r holl wleidyddion, yr holl wybodaeth a ffug wybodaeth yn un cenllif diddarfod yn golchi trosom yn feunyddiol. Y rhan fwyaf yn llifo drosof heb adael ei ôl. Ble bynnag yr edrychaf y mae'r blaid hon a'r blaid arall yn ceisio eu gorau glas i gael fy mhleidlais euraid i ethol eu hymgeiswyr i San Steffan. Yn dilyn yr etholiadau lleol fe'n plymiwyd yn syth i ymgyrch las, coch, melyn, oren, gwyrdd gydag ychydig borffor ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol i ethol llywodraeth. Mae Paul yn ein hatgoffa yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid pennod 13 adnodau 1- 7 pam fod Duw yn gosod llywodraethau yn eu lle. Fel Cristnogion rydym yn cefnogi amrywiol bleidiau yn ôl ein cydwybod ac wrth ystyried yr etholiad y mae'n bwysig gwneud o leiaf 3 pheth.



Alun Tudur

Gweddïo

Ar hyn o bryd y mae'n angenrheidiol ein bod yn gweddïo dros y broses wleidyddol, y pleidiau, yr ymgeiswyr a'r etholwyr. Yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd mae ansicrwydd dirfawr ynglŷn â'n dyfodol. Ni ŵyr neb mewn gwirionedd beth fydd yr oblygiadau..Y mae rhai yn darogan dyddiau da ac eraill yn darogan gwae. Dim ond Duw a ŵyr beth sydd o'n blaenau. Rydym angen gweddïo yn daer am arweiniad yr Arglwydd ac am ddoethineb i arweinyddion ein gwledydd i weinyddu yn ddoeth, cytbwys a chyfiawn. (1 Timotheus 2: 1 – 2)

Gweithredu

Galwodd Iesu arnom i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd. Elfen o hynny, d'oes bosib, yw bod Cristnogion yn cymryd rhan yn y broses wleidyddol gan weithredu yn gadarnhaol o fewn i'r pleidiau wrth hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, goddefgarwch a heddwch. Y mae gan Gristnogion gyfraniad hanfodol i'w wneud yn y maes hwn. Wrth gwrs mae rhai carfanau Cristnogol yn dweud na ddylai pobl Iesu ymwneud â gwleidyddiaeth. Ond pan mae'r Iesu yn rhoi patrwm gweddi i ni sy'n cynnwys y geiriau, "Dŷn ni eisiau i ti ddod i deyrnasu, ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd." beibl.net ("deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys ar y ddaear fel yn y nef," mae'n anodd gweld sut y gall hynny ddigwydd heb i ni ymwneud yn weithredol gyda'r broses wleidyddol. (Mathew 5: 13 - 14)

Bwrw Pleidlais

Mae hefyd yn anghenraid ein bod yn bwrw ein pleidlais. Er bod democratiaeth yn ymddangos yn annheg i rai, yn enwedig y lleiafrif, mae'n debygol mai hon yw'r ffurf fwyaf gwâr i ddewis llywodraethau ar ein cenhedloedd. Felly ar 8fed Mehefin pleidleisiwch yn ôl eich cydwybod Gristnogol fel Cymry.

Ond mewn cyfnodau o ansefydlogrwydd fel hyn byddaf yn diolch i'r Arglwydd yn gyson y digwydd y cwbl yng nghyd-destun gwaith Teyrnas sydd llawer pwysicach a llawer mwy sefydlog sef Teyrnas Dduw. Y Deyrnas a ddaeth, sy'n dod ac a ddaw yn Iesu Grist. Mae hon yn Deyrnas sy'n seiliedig ar ras a chariad, cyfiawnder a maddeuant ac yn Deyrnas na dderfydd byth.

Alun Tudur

GOBAITH

Duw, ffynhonnell gobaith

Nid yw'r gair 'gobaith' yn cael llawer o ddefnydd bellach yn ein cymdeithas, ac mae hyn yn arwydd ein bod yn byw mewn cyfnod cythryblus iawn. Fe ddefnyddir y gair 'gobaith' mewn modd mor wanllyd fel bod tinc o anobaith wedi llithro i mewn iddo. Gwelwn hyn yn y modd y defnyddiwn y gair yn ein sgwrs, fel er enghraifft yn y brawddegau canlynol;

Rwy'n gobeithio bydd Man U. yn ennill ddydd Sadwrn.
Rwy'n gobeithio na cha'i 'nghosbi'n rhy drwm.
Er bod yr arholiad yn anodd, 'rwy'n gobeithio wna'i ddim methu.

Mae'r gair '*gobaith'* yn y brawddegau hyn yn cael ei ddefnyddio mewn modd ansicr iawn. Ond yn y Beibl, mae'r gair *'gobaith* yn cael ei ddefnyddio yn gryf a chadarnhaol. Nid gobaith gwan na dymuniad gwag a di-sail yw'r gobaith Cristnogol, ond ymddiriedaeth hyderus yn Nuw ac yn ei addewidion. Mewn geiriau eraill, nid oes dim arlliw o amheuaeth na gwendid yn perthyn i'r gair *'gobaith'* yn y Beibl. Pam? Wel, oherwydd ei fod yn cael ei gysylltu â Duw, ac â chariad Duw yn Iesu Grist. Duw yw ffynhonnell gobaith, a dyma yw tystiolaeth Paul, '*A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd â thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith."*

Dwy chwaer!

Rwyf wrth fy modd hefo'r ymadrodd *"gorlifo â gobaith."* Dywedodd rhyw bregethwr yn ddireidus iawn fod gan 'Obaith' chwaer o'r enw '*Ann'!* Achosai hyn lawer o broblemau oherwydd byddai Ann yn cwyno ac yn lladd ar bawb a phopeth gan daflu dŵr oer ar ymdrech pawb a geisiai wella'r sefyllfa. Tybed a ydym o'r un natur yn aml? Rydym wrth ein bodd yn edrych yn ôl yn hiraethus ac yn sôn mor fendigedig oedd hi yn yr hen ddyddiau pan fyddai'r capeli yn llawn a'r ysgolion Sul yn llawer mwy llewyrchus nag y maent heddiw. Ni allwn wadu fod hynny yn wir mewn llawer i fan, ond wrth edrych yn ôl gyda sbectol hud y mae'n hawdd iawn rhamantu'r gorffennol y tu hwnt i bob rheswm. Rydym yn byw mewn byd sinigaidd iawn, ac mae'n hawdd iawn i hyn gymryd drosodd ein bywyd a difa pob gobaith sydd ynom. Ond fel y dywedodd rhywun, *"Yr wyf yn ddyn gobaith, nid am unrhyw reswm dynol, na chwaith am resymau naturiol ond oherwydd fy mod yn credu yn yr Arglwydd Iesu Grist."*

Dau bentref

Wrth ymyl tref Wrecsam y mae dau bentref ddim ymhell oddi wrth ei gilydd, sef '*Caergwrle'* a *'Hope'*. Sylw doniol pobl ddi-gymraeg yr ardal yw *'Live in Hope, die in Caegirly!'* Ceir hanes cadeirydd mewn cynhadledd eglwysig yn cyflwyno ficer 'Hope' i'r cynadleddwyr, ac wrth ei groesawu yn dweud yn Saesneg, *'Here is a man who lives continually in Hope!'* Byw yn Hope! Byw mewn gobaith! Plygodd pregethwr ymlaen o'r pulpud wrth gyflwyno ei neges i'r ffyddloniaid, a dweud, *'Rwy'n hen ac yn wan fy ffydd, ond mae fy Ngwaredwr yn fythol ifanc ac yn gryf."* Onid dyma'r agwedd meddwl sydd ei angen arnom ninnau hefyd? Y mae gennym Efengyl gobaith i'w chredu a'i chyhoeddi. Nid ynom ni, ond yng ngallu cariad Duw yn Iesu Grist y mae ein gobaith. Ac oherwydd hynny, er ein gwaetha' ni'n hunain, ac er gwaetha' pawb a phopeth, rydym yma o hyd! Gorffennwn gyda neges fawr yr emynydd Vernon Lewis;

"Saif ein gobaith yn yr Iesu
Brenin Nef, goleuni'r byd.
Ei ddoethineb a'i ddaioni
A ffrwythlona'n gwaith i gyd.
Llawenhawn, drwyddo cawn
Holl adnoddau Duw yn llawn."

John Lewis Jones